OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 131 (Cy. 33)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *31 Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4) a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

Yn unol ag adran 94(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2018.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â gwarediad trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

### Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi

**3.** Mae'r cyfraddau a ganlyn wedi eu rhagnodi yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017—

(a) y gyfradd safonol yw £88.95;

(b) y gyfradd is yw £2.80; ac

(c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £133.45.

(**1**) 2017 dccc 3.

*Mark Drakefor*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

31 Ionawr 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r gyfradd safonol gyntaf, y gyfradd is gyntaf a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi gyntaf ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a byddant yn gymwys i warediad trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny. Mae Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn nodi'r hyn sy'n warediad trethadwy.

Y gyfradd safonol yw £88.95, y gyfradd is yw £2.80 a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £133.45.

Ar gyfer gwarediad trethadwy a wneir mewn safle tirlenwi awdurdodedig, mae'r dreth i gael ei chyfrifo drwy gyfeirio at bwysau a math y deunydd sy'n cael ei waredu, yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf.

Ar gyfer gwarediad trethadwy a wneir yn rhywle heblaw safle tirlenwi awdurdodedig, mae'r dreth i gael ei chyfrifo drwy gyfeirio at bwysau'r deunydd sy'n cael ei waredu, yn unol ag adran 46 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.